



Cadw data

Ar ddiwedd yr archwiliad, bydd cyllidwyr yr archwiliad yn penderfynu sut y bydd y data'n cael ei gadw a'i ddiwrio. Bydd y penderfyniad yn cyd-fynd â'r **Cod Ymarfer Rheoli Cofnodion Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2016 yr Information Governance Alliance (IGA)**, sy'n nodi bod rhaid cadw cofnodion archwilio clinigol yn ddiogel am o leiaf 5 mlynedd ar ôl cwblhau'r archwiliad.

Dweud 'dim diolch'

Mae archwiliad clinigol cenedlaethol yn gweithio orau pan fydd yn cynnwys gwybodaeth am gymaint o gleifion â phosib. Unwaith y byddwch chi wedi darllen a deall yr wybodaeth hon, bydd aelod o'r tîm adsefydlu cleifion yr ysgyfaint yn gofyn i chi am ganiatâd ysgrifenedig i gynnwys eich gwybodaeth yn yr archwiliad hwn.

Gwybodaeth i gleifion Pwy sy'n cynnal yr archwiliad?

Partneriaeth Gwella Ansawdd Gofal Iechyd (HQIP) sy'n comisiynu NACAP, a Choleg Brenhinol y Meddygon sy'n ei rhedeg.

Rhagor o wybodaeth

Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau, holwch staff adsefydlu cleifion yr ysgyfaint a roddodd y daflen hon i chi, neu cysylltwch â'r tîm NACAP:
E-bost: pulmrehab@rcplondon.ac.uk | Ffôn: 020 3075 1526

Gallwch ganfod mwy am archwiliad adsefydlu cleifion yr ysgyfaint NACAP yn:
www.rcplondon.ac.uk/nacap-pr.

Rhowch wybod iddyn nhw os nad ydych yn dymuno i'ch gwybodaeth gael ei defnyddio. Ni fydd dweud 'na' yn effeithio mewn unrhyw fodd ar y gofal na'r driniaeth a gewch chi. Bydd y tîm clinigol yn gwneud yn siŵr nad yw eich gwybodaeth yn cael ei chynnwys yn yr archwiliad.

Os ydych chi wedi rhoi caniatâd i gynnwys eich gwybodaeth yn yr archwiliad hwn, ond yn newid eich meddwl yn ddiweddarach, rhowch wybod i'ch gwasanaeth PR. Caiff eich data ei dynnu o'r gwe-offeryn. Fodd bynnag, os yw'r data eisoes wedi'i dynnu at ddibenion adrodd, bydd eich data'n cael ei gynnwys yn yr adroddiad ar ffurf wedi'i chyfuno ac yn ddiennw.

Eich hawl i gwyno i gorff goruchwyllo

Os ydych chi'n credu bod eich gwybodaeth yn cael ei defnyddio'n amhriodol, mae gennych chi'r hawl i gwyno i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth. Ewch i www.ico.org.uk.



Commissioned by:



Royal College of Physicians

NACAP

Rhaglen Genedlaethol Archwilio Asthma a COPD (NACAP)

Archwiliad Adsefydlu
Cleifion yr Ysgyfaint

Gwybodaeth i gleifion



Rhoddwyd y daflen hon i chi oherwydd bod gennych chi glefyd rhwystrol cronig yr ysgyfaint (COPD) ac rydych wedi cael eich cyfeirio ar gyfer adsefydlu cleifion yr ysgyfaint. Nod y daflen wybodaeth hon yw rhoi gwybod i chi am yr archwiliad clinigol cenedlaethol sy'n cael ei wneud o'r gwasanaeth hwn ac, os ydych chi'n cytuno i fod yn rhan o'r archwiliad hwn, sut y gall eich gwybodaeth gael ei defnyddio.

Beth yw archwiliad adsefydlu cleifion yr ysgyfaint NACAP?

Mae archwiliadau clinigol yn gofyn cwestiynau am y gofal a ddarperir i gleifion fel:

- > Beth ddylem ni fod yn ei wneud?
- > Beth ydym ni'n ei wneud?
- > Sut gallwn ni wella?

Mae'r archwiliad hwn yn edrych ar y gofal mae pobl â COPD yn ei gael mewn gwasanaethau adsefydlu cleifion yr ysgyfaint. Bydd yr wybodaeth a gesglir yn cael ei chymharu â chyfres o ganllawiau adsefydlu cleifion yr ysgyfaint.

Pa wybodaeth sy'n cael ei chasglu?

O fis Mawrth 2019 bydd yr holl wasanaethau adsefydlu cleifion yr ysgyfaint sy'n darparu gofal GIG i bobl â COPD yng Nghymru, Lloegr a'r Alban yn casglu:

- > gwybodaeth bersonol (cyfrinachol)
- > gwybodaeth am y driniaeth a'r gofal a gewch. Gofynnir i chi am ganiatâd i ddefnyddio eich gwybodaeth yn yr archwiliad. Mae rhagor o wybodaeth am yr hyn rydym yn ei gasglu ar ein gwefan:

www.rcplondon.ac.uk/nacap-pr.

Pam bod hyn yn ddefnyddiol?

Bydd yr wybodaeth a gesglir yn dangos pa rannau o ofal adsefydlu cleifion yr ysgyfaint ar gyfer pobl â COPD sy'n dda, a pha rannau sydd angen eu gwella. Bydd yr archwiliad hefyd yn helpu i sicrhau bod gwybodaeth ar gael i'r cyhoedd am ansawdd gofal.

Pa wybodaeth gyfrinachol sy'n cael ei chasglu?

Eich rhif GIG unigryw (neu rif CHI yn yr Alban), eich dyddiad geni a chod post. Byddwn ni hefyd yn casglu gwybodaeth am eich rhyw ac ethnigrwydd.

Pam fod angen casglu gwybodaeth gyfrinachol?

Mae angen manylion cyfrinachol er mwyn gallu cysylltu'r wybodaeth a gesglir gan yr archwiliad hwn â gwybodaeth a gedwir gan sefydliadau GIG cenedlaethol. Rydym ni'n gwneud hyn fel ein bod yn gallu dilyn eich gofal os byddwch chi'n cael eich trin ar wahanol adegau ac mewn gwahanol leoedd. Rydym ni'n casglu gwybodaeth am eich rhyw ac ethnigrwydd i ganfod a yw hyn yn effeithio ar y driniaeth mae pobl yn ei chael.

Sut byddwn ni'n cadw eich gwybodaeth yn ddiogel?

Mae rheolau caeth GIG ar waith i wneud yn siŵr bod eich gwybodaeth yn gyfrinachol ac yn ddiogel. Mae'n rhaid i bob sefydliad sy'n trin data ar ran NACAP ddilyn y rheolau hyn. Rydym ni bob amser yn sicrhau bod y rhai rydym yn cytuno i rannu data â hwy yn bodloni gofynion cyfreithiol y GIG, ac yn dilyn arfer gorau o ran diogelwch a diogelu data.

I ble mae fy ngwybodaeth yn mynd?

Mae'r gwasanaethau adsefydlu cleifion yr ysgyfaint sy'n cymryd rhan yn yr archwiliad hwn yn cofnodi'r data maen nhw'n ei gasglu am gleifion a'u gofal mewn cronfa ddata ar-lein sy'n cael ei alw'n 'gwe-offeryn'. Bydd y data (gan gynnwys gwybodaeth gyfrinachol) yn cael ei gadw yno drwy gydol yr archwiliad.

Crown Informatics sy'n cadw'r data, ac mae hefyd yn creu'r gwe-offeryn archwilio. Mae Crown Informatics yn bodloni holl ofynion cyfreithiol y GIG, ac yn dilyn arfer gorau o ran diogelwch a diogelu data. Mae'n bosib y bydd staff Crown Informatics yn gweld manylion personol, fel rhif GIG/CHI, cod post, rhyw ac ethnigrwydd fel rhan o waith gweinyddu'r gronfa ddata.

Bydd Crown Informatics yn derbyn y data a fewnbynnir gan wasanaethau, yn dileu unrhyw wybodaeth a fyddai'n golygu eich bod yn gallu cael eich adnabod, ac yn ei anfon at Imperial

College Llundain, sy'n dadansoddi'r data. Yna bydd Imperial College yn anfon canlyniadau'r dadansoddiad at dîm NACAP i gynhyrchu adroddiadau. Nid yw tîm NACAP yn gweld gwybodaeth am gleifion unigol.

O dro i dro, bydd Crown Informatics hefyd yn anfon eich data at nifer o sefydliadau'r GIG yng Nghymru, Lloegr a'r Alban i gysylltu â'u cofnodion. Er enghraifft, maen nhw'n anfon data rhif GIG/CHI, dyddiad geni a chod post at y GIG Digidol, NWIS (Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru) ac eDRIS (Gwasanaeth Ymchwil ac Arloesi Data electronig).

Mae gan y GIG Digidol gofnod o'r holl dderbyniadau i'r ysbyty o'r Ystadegau

Cyfnod Ysbyty (HES) yn Lloegr. Mae NWIS ac eDRIS yn cael y data hwn o'r Gronfa Ddata Cyfnod Ysbyty Cleifion ar gyfer Cymru (PEDW) a'r Is-adran Gwasanaethau Gwybodaeth (ISD) yn yr Alban.

Bydd data HES, PEDW ac ISD yn cael ei gysylltu â'r data archwilio. Bydd y GIG Digidol hefyd yn darparu dyddiad a data achos marwolaeth o'r cofnodion cofrestru sifil ar ran y Swyddfa Ystadegau Genedlaethol (ONS) ar gyfer Cymru a Lloegr. Bydd eDRIS yn darparu'r wybodaeth hon ar ran Cofnodion Cenedlaethol yr Alban. Unwaith y bydd Crown Informatics yn derbyn y data 'cysylltiedig' hwn yn ôl, bydd yn dileu'r dynodyddion ac yn ei anfon at Imperial College Llundain, i'w ddadansoddi a'i gyfuno, a bydd y rheiny wedyn yn rhannu'r canlyniadau â tîm NACAP i gynhyrchu adroddiadau canlyniadau. Mae darlun graffigol o'r 'llif data' ar gael ar ein gwefan yn www.rcplondon.ac.uk/nacap-pr-resources.

Mae'n bosib i'r sefydliadau uchod newid yn y dyfodol. Bydd yr wybodaeth ddiweddaraf bob amser ar gael ar ein gwefan.

Sut fydd fy ngwybodaeth yn cael ei defnyddio?

Bydd gwasanaethau adsefydlu cleifion yr ysgyfaint yn derbyn eu hadroddiadau eu hunain am y gofal maen nhw'n ei roi i oedolion â COPD. Bydd yr adroddiadau'n cymharu canlyniadau gwasanaeth â'r cyfartaledd cenedlaethol. Mae hyn yn helpu gwasanaethau i weld pa mor dda yw eu gofal.



Byddwn ni hefyd yn cynhyrchu adroddiadau am safon y gofal ar lefelau rhanbarthol a chenedlaethol. Bydd yr adroddiadau hyn ar gael ar y wefan archwilio yn <http://www.nacap.org.uk>.

Mae'n bosib y byddwn yn defnyddio'r data a gesglir i gynhyrchu papurau academaidd. Caiff sefydliadau trydydd parti hefyd wneud cais i ddefnyddio'r data ar gyfer dibenion ymchwil, archwilio a gwerthuso gwasanaeth.

Ni fydd y data hwn fel arfer yn cynnwys dynodyddion personol (fel eich dyddiad geni neu rif GIG). Fodd bynnag, mewn achosion prin iawn efallai y bydd angen i ni rannu'r rhain am resymau statudol. Ni fyddwn yn rhannu unrhyw ddata oni bai fod trefniadau cyfreithiol, moesegol a diogelwch priodol ar waith er mwyn cadw eich manylion yn saff a diogel. Os oes angen mwy o ddata ar drydydd parti nag yr ydym yn ei gasglu yn yr archwiliad i ateb eu cwestiynau, efallai y byddant hefyd angen 'cysylltiad' â ffynonellau gwybodaeth eraill. Yn yr achosion hyn, byddwn yn anfon data sy'n adnabod claf at sefydliadau'r GIG a restrwyd yn flaenorol. Byddant yn cysylltu'r data archwilio â'r setiau data eraill, fel bod y trydydd parti yn gallu deall mwy am eich gofal. Y prif reswm bob amser dros ddefnyddio'r data fydd er mwyn gwella gofal a gwasanaethau i bobl sydd â COPD.